



24/05/2017

Annwyl Swyddog Cyfrifol

## **Asesiadau Pwynt Terfyn a gaiff eu dyfarnu gan Gyrff Dyfarnu Cydnabyddedig yng Nghymru**

Hoffem egluro'r dull gweithredu y bydd Cymwysterau Cymru yn ei fabwysiadu o ran asesiadau pwynt terfyn (EPAs) a gaiff eu dyfarnu gan Gyrff Dyfarnu cydnabyddedig yng Nghymru.

Rydym yn ymwybodol bod llawer o'r Cyrff Dyfarnu rydym yn eu rheoleiddio hefyd yn 'sefydliadau EPA' ar gyfer prentisiaethau 'Trailblazer' yn Lloegr. Mae gwahaniaethau rhwng polisiau prentisiaethau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ond gall amgylchiadau godi lle yr hoffech gyflwyno EPAs yng Nghymru.

Yn ein barn ni, mae EPAs yn gymwysterau. Felly, os yw ymgeiswyr yn gwneud un o'ch EPAs yng Nghymru byddwn yn trin yr EPA fel *cymhwyster rheoleiddiedig* – oni bai eich bod wedi eithrio EPA o gwmpas eich cydnabyddiaeth drwy'r broses 'ildio cydnabyddiaeth yn rhannol'. Os hoffech eithrio EPA o gydabyddiaeth yn y ffordd hon cysylltwch â'n [tîm cydnabyddiaeth a chymeradwyaethau](#).

Ar ben y statws *rheoleiddiedig* hwn, efallai yr hoffech wneud cais am un neu fwy o'r EPAs gael eu *dynodi* yn rhai cymwys i'w gwneud gan ddysgwyr o dan 19 mlwyd oed ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru. Gallwch wneud hyn drwy wneud cais am ddynodiad ar [QiW](#) yn y ffordd arferol.

Fodd bynnag, nodwch nad yw dynodiad yn golygu yn awtomatig y gellir defnyddio EPA o fewn prentisiaethau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru. Er mwyn i EPA gael ei gynnwys o fewn prentisiaethau a ariennir gan Lywodraeth Cymru byddai'n



rhaid iddo fodloni ei gofynion a chael ei restru o fewn fframwaith prentisiaeth a gaiff ei gyflwyno gan awdurdod cyhoeddi priodol. I gael rhagor o wybodaeth am hyn gallwch gysylltu â [Llywodraeth Cymru](#).